

## Cwrs Uwch – Uned Gyfoes (Mis Mawrth 2019):

### Gwers i hyrwyddo a chyflwyno cyfres *Garddio a Mwy* – Nodiadau i'r Tiwtor

Nod y wers:

- Cyflwyno a thrafod cyfres deledu *Garddio a Mwy*;
- Trafod gerddi ac arferion garddio;
- Dysgu geirfa ac idiomau newydd.

Mae rhaglen *Garddio a Mwy* yn dychwelyd ar gyfer cyfres newydd o raglenni fydd yn cael eu darlledu ar S4C bob nos Lun o 15 Ebrill 2019. Bwriad y deunydd yma yw rhoi cyflwyniad i'r gyfres ac annog y dysgwyr sydd â diddordeb i wylïo'r rhaglenni. Mae'n bosib cyflwyno'r elfennau yn y wers hon dros fwy nag un sesiwn.

#### 1. Cyflwyniad

Ewch dros yr eirfa cyn gofyn i'r dosbarth ddarllen trwy'r cyflwyniad unwaith – gallant wneud hynny mewn paru neu grwpiau bach. Wedi iddynt ddarllen y darn, gofynnwch iddynt drafod ymarferion iaith 1-3. Cadarnhewch yr atebion (gweler isod ar gyfer 1 a 2) ac yna gofynnwch iddynt ddarllen trwy'r darn eto, gan nodi unrhyw eirfa ychwanegol sy'n newydd neu'n peri penbleth. Trafodwch yr elfennau geirfa hynny. Gofynnwch wedyn iddynt roi'r ticiau yn y blychau perthnasol yn y tabl ynglŷn â'r cyflwynwyr. Nodir yr atebion isod.

1. :

- |  |                 |
|--|-----------------|
| i. bachgen                                 | <b>hogyn</b>    |
| ii. symud o'i lle                          | <b>disodli</b>  |
| iii. gofalu am                             | <b>tendio</b>   |
| iv. pethau sydd wedi<br>eu tyfu yn yr ardd | <b>cynnyrch</b> |

#### 2. dod yn ei blaen

Mae'r gwaith ar y tŷ yn **dod yn ei flaen** yn dda.

Sut mae'r gweithwyr newydd yn **dod yn eu blaen(au)** yn y swyddfa?

Wyt ti'n **dod yn dy flaen** yn dda ar y cwrs Ffrangeg?

Dych chi fel tasech chi'n **dod yn eich blaen(au)** yn wych.

	Iwan	Sioned	Meinir
byw yn Nyffryn Clwyd	✓	✓	
byw ym Mhen Llŷn			✓
â thri o blant	✓	✓	
wedi gosod pwll yn yr ardd			✓
hoff o dyfu blodau i'w torri		✓	
hoff o dyfu llysiau	✓		
â diddordeb mewn perllysiau meddygol		✓	
wedi plannu gardd rosod			✓

## 2. Storm eirfa

Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn grwpiau bychain (3-4) i feddwl am gymaint o eirfa berthnasol i arddio ag y gallant. Yna dewch â'r dosbarth ynghyd i glywed beth yw geirfa pob grŵp ac i fynd dros y rhai anghyfarwydd. Dyma rai awgrymiadau posibl. Gallech ychwanegu'r rhain i'r drafodaeth os na fyddant wedi codi:

Planhigyn, planhigion, plannu, chwyn, chwynnu, rhaw, fforch, hof, hadau, hau, torri, tocio, dyfrio, pridd, malwod, llysiau, blodau, perllysiau, lawnt, gwely blodau/llysiau, peiriant torri gwair, tŷ gwydr, piben ddŵr, can dyfrio, gwreiddiau.

## 3. Siarad

Cyflwynwch y cwestiynau sy'n trafod gerddi a garddio. Wedi cyflwyno'r cwestiynau, rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i holi ei gilydd. Wedi iddynt gael cyfle i drafod, dewch â'r dosbarth yn ôl at ei gilydd a gofynnwch am unrhyw wybodaeth ddiddorol a gododd yn nhrafodaethau'r grwpiau.

## 4. Fideo – Gardd gysgodol Meinir

Cyn dangos y fideo, gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn parau i gysylltu'r geiriau â'r diffiniadau cywir:

<b>gwreiddiau</b>	y rhannau o blanhigion sydd o dan y pridd fel arfer
<b>gwyddfifid</b>	planhigyn dringol sydd â blodau siâp trwmped (honeysuckle)
<b>traeniad</b>	dŵr yn mynd i lawr trwy'r pridd
<b>cysgodol</b>	ddim yn yr haul
<b>gro</b>	cerrig mân
<b>gwyrddni</b>	lliw gwyrdd
<b>cafn</b>	potyn neu lestr mawr, agored
<b>machlud</b>	yr haul yn mynd i lawr ar ddiwedd y dydd

Gallwch esbonio bod **machlud** yn ferfenw ac yn enw trwy gyfeirio at enghreifftiau megis:

Mae'r haul yn machlud.

Edrychwch ar y machlud bendigedig.

Cyfeiriwch wedyn at yr ymadrodd "Dach chi'n un o'r bobl 'ma sy'n... a gofyn i'r partneriaid ofyn cwestiynau i'w gilydd ar y patrwm hwnnw.

Cyn chwarae'r fideo, gofynnwch i'r dysgwyr wrando am y geiriau o'r ymarfer paru â diffiniad uchod. Gellir gofyn iddynt godi llaw pan fyddant yn clywed un o'r geiriau.

Wedi gwyllo'r fideo, gofynnwch i'r paru fynd trwy cwestiynau 4-6. Dyma'r atebion i 4 a 6:

4. "patsyn **maint hances boced**"

6. :

i. Mae Siôn yn hoff o gael trwch da o **fenyn** ar ei fara.

ii. Mae trwch da o **wlân** ar Ddefaid Mynydd Cymreig dros y gaeaf.

iii. Bydd angen trwch da o **bridd** yn yr ardd os dych chi eisiau tyfu tatws.

iv. Roedd trwch da o **eira** ar y llethrau sgïo.

Cyn chwarae'r fideo eto, rhowch gopïau o'r cyfarwyddiadau canlynol ar gardiau unigol fesul cam i bob pâr a gofyn iddynt eu gosod yn eu trefn. Yr un cyntaf, wrth gwrs, ydy'r un na wnaeth Meinir ar yr adeg orau.

**Gosodwch y cafn gwag yn ei le yn erbyn wal gyda threlis arni.**

**Rhowch grocs neu grafel ar waelod y cafn ar gyfer traeniad.**

**Rhowch gymysgedd o gompost amlbwrpas a *John Innes Rhif 3* yn y cafn.**

**Plannwch blanhigyn gwyddfïd yn y cafn.**

**Plannwch blanhigyn *Clematis* wrth ochr y gwyddfïd.**

**Rhowch drwch da o ro dros y compost, gan sicrhau eich bod yn gorchuddio gwreiddiau'r planhigion.**

## 5. Ymarfer iaith

Gofynnwch i barau weithio trwy'r brawddegau yn gosod y gair mwyaf addas yn y bwlch:

1. Mae gardd Eleri wedi cael ei **thrawsnewid** yn llwyr – do'n i ddim yn nabod y lle!
2. Dw i wedi paratoi'r ardd lysiau a heddiw, bydda i'n **plannu** tatws.
3. Bydd y gwahanol flodau mae Prys wedi'u gosod yn y border yn rhoi **cyfuniad** hyfryd o liwiau yn yr haf.
4. Pan fyddan nhw'n tyfu, bydd angen **clymu** planhigion y ffa i'r ffyn bambw.
5. Os na wnewch chi **ddyfrio**'r gwely blodau, bydd y pridd yn sychu a'r blodau'n marw

## 6. Fideo – Gardd Nia

Cyn dangos y fideo, gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu'r pum gair o'r bylchau yn yr ymarfer iaith uchod yn y blychau a gwrando amdanynt wedyn wrth wylio'r fideo.

Dangoswch y fideo eto (ddwywaith os ydych chi'n meddwl bod angen) a gofynnwch i'r parau drafod cwestiynau 2-8:

2. Ym mha dref mae gardd Nia? Caernarfon
3. Pa gamau mae Sioned wedi eu cwblhau yn y broses o drawsnewid yr ardd?
  - i. clirio
  - ii. peintio
  - iii. gosod border pren newydd
  - iv. gosod trelis ar y wal
4. Beth ydy'r cam nesaf? Hynny yw, beth mae hi am ei wneud rwan/nawr?

Plannu
5. Sut mae'r *Achillea* a'r *Catmint* yn wahanol o ran beth sy'n digwydd ar ôl i'r blodau farw?

Bydd yr *Achillea* yn blodeuo eto'r flwyddyn ganlynol wedi cael eu torri, ond gall y *Catmint* flodeuo eto yn yr un tymor
6. Sut gallwch chi gael planhigion *Achillea* newydd?

Torri'r planhigyn yn ei hanner (drwy roi rhaw trwy ei ganol).

7. Beth sy'n rhoi'r tri lliw mae Nia'n eu henwi?

Melyn – *Achillea*

Piws – *Clematis*

Gwyn – y wal

8. Pa waith sydd gan Nia i'w wneud yn yr ardd ar ôl i Sioned orffen a pham?

Dyfrio - gan eu bod nhw'n blanhigion newydd a'r tywydd wedi bod yn boeth.

## 7. Siarad

Cyflwynwch y cwestiynau siarad ar ddiwedd yr uned a gofynnwch i grwpiau drafod cyn dod â'r dosbarth at ei gilydd i drafod eu hymateb..